PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 30 Gorffennaf 23, 2026 50c.

## Cyflwyno Beiblau

Braint blynyddol yng Nghaerfyrddin yw cyflwyno Beiblau Cymraeg i ysgolion Cymraeg y cylch. Hyfrydwch gan y Parchg Beti-Wyn oedd cyflwyno Beiblau i flwyddyn 5 Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin. Noddwyd y Beiblau gan gapeli ac eglwysi Cymraeg Caerfyrddin yn dilyn yr oedfa gŵyl Ddewi undebol a gynhaliwyd yn y dref. Hefyd, hyfrydwch oedd cyflwyno Beiblau i flwyddyn 6 ysgol Bancyfelin, Caerfyrddin. Noddwyd y Beiblau hyn gan gapel Bancyfelin er cof am y ddiweddar Sallie Walters a fu'n aelod ffyddlon ar hyd ei hoes. Diolch am bob cefnogaeth a haelioni gan ffyddloniaid capeli ac eglwysi'r ardal sy'n ein galluogi i gyflawni hyn bob blwyddyn.






## Ebenezer Graigfechan

### Gŵyl y Groglith

Ar nos Wener y Groglith fel sydd yn arferol yma yng Nghraigfechan cynhaliwyd ein gŵyl bregethu flynyddol a phleser yw dweud fod yr 'hen' ŵyl hon yn dal mewn bodolaeth ar ôl mwy na 150 o flynyddoedd. Gwyddom fod *tri* phregethwr gwadd yn cael eu gwahodd yn y dyddiau cynnar ond rydym wedi gorfod addasu ers rhai blynyddoedd i gynnal un oedfa ar y nos Wener y Groglith.

Yn ôl yr arfer unwaith eto, daeth cefnogaeth gref o ffrindiau o bell ac agos i wrando ar ein gŵr gwadd am eleni sef y Parchg Carwyn Siddall, Llanuwchllyn hefo'i bregeth amserol a diddorol tros ben wedi ei llunio o gwmpas tri darlleniad. Mae'n amlwg fod y Parchg Carwyn Siddall yn meddu ar bersonoliaeth hynod, i ddal sylw'r gynulleidfa gref a ddaeth i'r oedfa eto eleni ac mae'n diolch yn fawr iddo am ei hynawsedd o lunio pregeth ac oedfa i'w chofio. Yn ôl yr arfer fe gafwyd hefyd ganu cynulleidfaol grymus ac mae ein diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi.



### Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd a'r Cylch

Yn wir i chi mae'r gymanfa ganu uchod yn dal ei thir yn rhyfeddol ac eleni fe'i chynhaliwyd yng nghapel Pendref, Ruthun ar brynhawn Sul heulog 14 Mehefin. Yr arweinydd gwadd eleni eto oedd y brawd Arwyn Roberts o Fodfari a Gareth, Graigfechan, oedd yr organydd. Roedd aelodau a ffrindiau lawer o eglwysi eraill y dyffryn ac ymhellach wedi dod ynghyd i ganu

*parhad ar dudalen 2*

# Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol – *Rhan 2*




Nawrte gadewch i ni droi at y naw mis a fu felly. Dyma'r ffordd wy'n gweld pethau. Rydyn ni mewn sefyllfa fregus o ran ein pobl, o ran ein heglwysi, ein gweinidogion ac o ran ein cenhadaeth, fe wyddom ni hyn o'r gorau. Ond mae gen i newyddion drwg a da i chi. Y newyddion drwg yw 'dim ond ni sydd' a'r newyddion da? Wel, 'dim ond ni sydd'. Felly mae'n dibynnu shwd chi'n ystyried ein sefyllfa, ac yn bendant, o'm rhan i mae'n well gen i feddwl mai newyddion da sydd fan hyn oherwydd, ni sydd â'r pŵer i wneud unrhyw newid ac y mae gennym ni rym a gallu hyd yn oed yn ein gwendid.

### Trysorau

Rydyn ni fel Undeb yn edrych ar sut i rymuso'n pobl a'u galluogi i gynnal eu heglwysi drwy'r cyfnod heriol nesaf hwn. Yr ydym ni mewn cyfnod o newid a rhaid i ni fel Undeb, fel gweinidogion, fel cyfundebau, fel eglwysi ac fel unigolion fod yn ymatebol i'n hoes. Fel dywedodd un o'n gweinidogion ni'n ddiweddar, 'Does gennym ni ddim i'w golli ac mae hynny'n gynhyrfus.' Ac efallai fod y diagnosis yn 'terminal' o ran Cristnogaeth yn y gorllewin, ond y gwir yw mai'r *ffordd* yr ydyn ni'n byw gyda'r diagnosis hwnnw yw'n her ni, ac mae gennym gymaint i ymfalchïo ynddo, cymaint i fod yn llawen yn ei gylch a chymaint i edrych ymlaen ato. Dywedodd Julie Sim o CWM wrthym pan ddaeth ar ymweliad y llynedd, 'Look at what you have.' Ac yn wir, o edrych, y mae gennym y fath drysorau. A chyfeillion, dyw e ddim drosodd nes ei fod e drosodd, nagyw?

Felly, af ymlaen i sôn am yr hyn sydd gennym ar y gweill. Yn y *Llyfr Glas* ar dudalen 21 fe welwch Fframwaith y Cynllun Datblygu sy'n amlinellu'n fras ein meysydd gwaith dros y cyfnod nesaf. Mae'n cynnwys y meysydd canlynol yn fras o ran cylch gwaith: digidol, hyfforddiant, swyddfa a staff ac ymgyrchoedd. Gallwch edrych dros hwnnw yn eich amser eich hun. Y *caveat* yma yw y gall hyn oll newid, am ein bod yn ceisio bod yn ymatebol i'n hoes. Ond dyma flas ar sut y mae hi wedi bod gyda ni dros y cyfnod diwethaf a hefyd rhyw gipolwg ar ein bwriadau ni i'r dyfodol.

### Staff Tŷ John Penri

Rydyn ni'n griw bach ond brwd o ran nifer y tîm staff yn Nhŷ John Penri, a'r neges i bob un ohonom yw 'cyfathrebu a chydweithio' fel criw mewn modd cydweithredol. Ymunodd Margaret Hughes â ni fel Swyddog Cyhoeddiadau a Chydlynydd, ac mae hi wedi hen ymgartrefu ac yn cymryd ei lle'n llawn gan fagu hyder yn ei gwaith ar ran yr Undeb. Mae fy niolch yn fawr a diffuant i'r criw bach gweithgar, dyfeisgar a chreadigol; Rhodri Darcy, Jill-Hailey Harries, Margaret Hughes, Carwyn Siddall a Meinir Williams.

### Ni yw'r Undeb

Cawn gyfarfod staff yn wythnosol ar fore Mawrth i rannu a thrafod beth sydd gan bawb ar y gweill, pwy sydd angen help a sut allwn ni fod yn fwy na'n nifer o ran ein maintioli (*more than the sum of our parts*). Mae'n gyfle gwerthfawr i bob un ohonom i glywed beth yw holl waith staff yr Undeb ac mae'r wybodaeth honno'n ein cymhwyso ni fel unigolion yn well i fod yn fwy effeithiol yn ein gwaith. Y ffaith waelodol yw, pwy bynnag sy'n codi'r ffôn, neu'n ateb e-bost *yw* yr Undeb ac felly mae'n bwysig fod gan bob aelod o staff wybodaeth weithredol a llawn o waith yr Undeb. Yn ogystal, rydyn ni yma i gynnal ein gilydd yn y swyddfa fel staff, i helpu pan fo angen a chydweithio, ac yna yn ein tro rydyn ni yma i gynnal ein haelodau drwy Gymru'n ehangach. Yr ydym hefyd yn derbyn hyfforddiant ar bob math o bethau, o ddysgu sut mae gweinyddu bas data i hyfforddiant ar sut mae gweithio'n rhagweithiol a strategol fel tîm – a'r cyfan hyn er mwyn i ni fod y fersiwn orau o staff Tŷ John Penri ar eich cyfer chi. Mae'r gwaith yn barhaus ac rydym ni'n chwilio am bob cyfle i wella'n sgiliau.

**Elinor Wyn Reynolds**

# Ebenezer Graigfechan – parhad

rhyw ddwsin o donau ac emynau o *Ddetholiad Cymanfaoedd Canu 2025/26*. Roedd llawr capel Pendref wedi llenwi erbyn hanner awr wedi dau ac estynnwyd y croeso i bawb gan y Parchg A. Brian Evans a'n siarsiodd i ganu'n dda ac i bawb gyd-gyfarfod wedi'r oedfa yn y festri am baned a theisen. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan ddau o gyd-ysgrifenyddion Pendref sef Richard Roberts a Philip Jonathan.

Yn dilyn hyn aethpwyd ymlaen dan arweiniad Arwyn Roberts (un sydd wedi ei godi a'i drwytho mewn caniadaeth y cysegr yng nghapel Lôn Swan, Dinbych) i gyd-foli a chanu emynau o'r *Rhaglen y Cymanfaoedd* cyfoes. Roedd 'hwyl' arbennig ar y canu a 'sŵn' un emyn arbennig sef 'Cerddwn Ymlaen' yn ein swyno am rai dyddiau wedi'r gymanfa. Daeth y Parchg Graham Floyd, Lôn Swan i ddiolch i bawb ac i ledio'r Weddi Apostolaidd ar y diwedd.

Ia – diolch i bwyllgor y gymanfa o dan lywyddiaeth Arwyn am eu brwdfrydedd i ddal 'mlaen i gynnal yr oedfa arbennig hon.

Diolch yn fawr.

**Gareth Lewis Jones**
**Craigfech**

## Panel Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr

**ARWYN OWEN HUGHES**
Llithfaen

**SIAN MEINIR**
Penarth

Hyfrydwch yw nodi fod y ddau fyfyriwr uchod wedi cwblhau cwrs academaidd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig, ac yn agored i dderbyn galwad oddi wrth yr eglwysi.

I dderbyn eu manylion cyswllt, neu am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu, sef y Parchg Carwyn Siddall: 07732974819 carwyn@annibynwyr.cymru

Dymunwn fendith Duw ar y ddau ohonynt.

Yr Adran
Gydenwadol

23 Gorffennaf 2026
Rhifyn 282

I ddarllen y cyhoeddiad digidol
*Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Jennie yn 'Eistedd i Lawr'



Dydd Sadwrn, 4 Gorffennaf, braf oedd gweld capel Methodistaidd Sant Paul yn Aberystwyth yn orlawn wrth i gyfeillion o bob rhan o Gymru ddod ynghyd i ffarwelio â'r Parchg Jennie Hurd wrth iddi ymddeol, neu 'eistedd i lawr' fel y cyfeiria'r Eglwys Fethodistaidd at yr achlysur.

Mae Jennie wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd Cristnogol ein gwlad dros gyfnod o ugain mlynedd, ac wedi bod yn ffrind da i eciwmeniaeth, gan wasanaethu ar nifer o bwyllgorau cydenwadol. Daeth i Gymru am y tro cyntaf yn 1999, wedi ei galw i fod yn weinidog Ardal y Glannau yng ngogledd Cymru. Aeth ati yn syth i ddysgu Cymraeg, gan ymdrechu yr un pryd i ddeall ein diwylliant a'n ffyrdd. Meistrolodd yr iaith o fewn dim, a derbyniodd groeso mawr gan ei henwad ei hun a chan y teulu Cristnogol ehangach.

Wedi pum mlynedd fe'i galwyd yn ôl i Loegr, ond yna, yn 2008, fe'i hetholwyd yn Gadeirydd Synod Cymru. Symudodd yn ôl i fyw i ardal Croesoswallt, gan deithio Cymru benbaladr ar y Sul er mwyn dod i adnabod holl gynulleidfaoedd ei gofal. Bellach, mae ei thymor fel Cadeirydd wedi dod i ben, ac mae hithau a Pete, ei gŵr, yn symud yn ôl i Swydd Derby i ymddeol. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt, gan ddiolch am eu cyfraniad tra oeddent yng Nghymru.

Bu Jennie yn hynod weithgar o fewn y byd Cristnogol, gan daflu ei hun i bob ymdrech gydenwadol ac eciwmenaidd. Bu'n Gadeirydd Cytûn yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gan roi o'i hamser i gefnogi staff a chynlluniau'r mudiad. Bob blwyddyn byddai Jennie yn bresenoldeb gweledol ym Mhabell yr Eglwysi yn yr Eisteddfod a'r Sioe. Byddai wastad yn cyrraedd yn gynnar er mwyn helpu i osod – a sgwrio – byrddau a chadeiriau a golchi'r llieiniau bwrdd! Bu'n gadeirydd gofalus i Gyngor yr Ysgolion Sul, yn ysgrifennydd pwyllgor y cylchgrawn *Cristion* a sawl menter arall. Cafodd ei sefydlu'n Esgob Eciwmenaidd gan Esgobaeth Llanelwy fel arwydd o gydnabyddiaeth am ei gwaith.

Andrew Charlesworth, Cadeirydd presennol Talaith Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd, oedd yn gyfrifol am arwain y cyfarfod. Cyflwynwyd sawl teyrnged i Jennie, gan gynnwys un gan Cynan Llwyd ar ran Cytûn, a ddiolchodd am ei chyfeillgarwch a'i chefnogaeth i holl eglwysi Cymru. Yna, cafwyd pregeth gan y Parchg Helen Cameron, cyn-Lywydd yr Eglwys Fethodistaidd.

Wedi'r oedfa cafwyd cyfle i fwynhau gwledd wrth y byrddau, a thorri'r gacen 'Eisteddfa Hapus' oedd wedi ei gwneud ar gyfer yr achlysur.


*Aled Davies*




*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 32

## Ymson Fasti

Newidiodd popeth yr eiliad y deallodd y brenin fy mod yn ei wrthod. Cyn hynny, ro'n innau'n frenhines, yn cael gwneud fel y mynnwn ac yn byw bywyd braf. Ond, y diwrnod hwnnw, teimlais bod yn rhaid imi ddweud y ddau air tyngedfennol: 'Na wnaf'.

Mae'n siŵr eich bod wedi clywed fy mod yn hardd – ond na dd'wedodd neb wrthych fy mod yn ddoeth ac yn ddeallus. Byddwch yn gwybod rhan o'r stori, ond does neb yn gofyn pam y gwnes i'r penderfyniad a fyddai'n newid fy mywyd.

Y noson honno roedd y brenin wedi meddwi – ar bŵer ac ar win. Galwodd amdanaf. Ni dd'wedodd beth ddylwn ei wisgo, ac eithrio fy nghoron. Cymerais felly ei fod yn dymuno f'arddangos i bawb, a bod hynny'n golygu dangos popeth! Oedd e wir yn dychmygu y byddwn i'n gwneud hynny? Sut ar y ddaear allwn i sicrhau unrhyw fath o loches imi fy hun mewn sefyllfa fel hon? Gallai unrhyw beth ddigwydd. Un symudiad ganddo fe a byddwn wedi fy meddiannu'n llwyr!

Allwn i ddim. Ddylwn i ddim. A wnes i ddim. D'wedais 'Na'. Na: i rym un dyn drosof. Na: i gydsynio i fod yn rhywbeth nad oeddwn eisiau bod. Na yw na. Atseiniodd fy 'na' drwy'r palas. Ymhen hir a hwyr roedd eco'r 'na' wedi ymledu drwy'r deyrnas i gyd. Clywais innau gynghorwyr y brenin yn sibrwd wrth ei gilydd. Nid fy nhrafod i yr oedden nhw mewn gwirionedd, ond trafod yr effaith ar eu gwragedd ac yn pryderu am eu buddiannau eu hunain. Roedden nhw am imi ddiflannu er mwyn i'r peth gael ei anghofio.

Ond allwn i ddim anghofio. Felly, dwi wedi aros am ganrifoedd, yn disgwyl clywed eraill yn codi eu lleisiau: yn siarad am eu profiadau, yn gweiddi dros eu hawliau, yn gwrthod. Arhosais yn hir … yn rhy hir o lawer. Gwyliais o bell ar rai yn derbyn, yn dioddef, yn esgus, ac yn ffugio er mwyn cadw'r heddwch. Heddwch i bwy, dwi ddim yn siŵr.

Yna, clywais rywbeth. Un ferch yn ymbil ar eraill i rannu dau air. Ie, dau air, yn union fel y gwnes i. A'r ddau air y tro hwn? 'Fi hefyd.' A daeth y lleisiau. Nid un llais, nid dau, nid deg, nid cant hyd yn oed, na miloedd, ond miliynau! Merched mewn stafelloedd ymarfer, merched mewn swyddfeydd, merched mewn cyfweliad. Merched, merched, a mwy o ferched. Rhai a gafodd eu galw'n 'anodd', rhai a gafodd eu gwawdio am ddweud y gwir, rhai a gollodd eu swyddi am sefyll ar egwyddor. Canrif hollol wahanol, ond yr un sgript.

'Ti wnaeth gamddeall.'
'Doedd o ddim yn bwysig, nac yn werth dim.'
'Paid â gwneud môr a mynydd o'r peth.'
'Ti sy'n gorymateb.'
'Paid cwyno, 'sdim pwynt.'
'Dy fai di …'

Dwi'n nabod y sgript, wedi clywed y llinellau droeon erbyn hyn. Dwi'n gwybod sut y mae grym yn hoff o berswadio rhywun mai cadw'n dawel sydd orau. Ond wrth glywed 'fi hefyd', clywaf furiau eraill yn dechrau dymchwel. Nid fi oedd yr olaf; daeth llawer ar fy ôl. A siŵr o fod, yn anffodus, daw nifer eto.

Gofynnodd rhywun imi unwaith oeddwn i'n difaru gwrthod? Gofynnaf finnau: fyddech chi'n gofyn i'r person cyntaf a oleuodd gannwyll a oedd y tywyllwch yn fwy cyfforddus? Ac wrth bob person sydd wedi teimlo erioed fod dweud a rhannu yn costio gormod, fe ddywedaf, 'Dwi'n gwybod'. Gwn sut y mae dweud y gwir yn colli ffrindiau, colli swyddi, colli cyfle a gyrfa. Ond mae cadw'n dawel weithiau'n costio mwy.

Felly, os gall un llais wneud gwahaniaeth yn erbyn brenin, yna fe all cannoedd o leisiau wneud cymaint mwy. A chofiwch hyn: bob tro y bydd un person yn dweud 'Na wnaf', fe godaf eto, o'r llwch a chodi fy llais.

**Holi**

- Beth mae crynoder stori Fasti ac absenoldeb ei llais yn ei awgrymu ynghylch pa leisiau sy'n cael lle yn yr Ysgrythur? Beth yw eich barn am hyn?
- Dyw'r testun Beiblaidd ddim yn esbonio rhesymeg Fasti. Oes cwestiynau'n codi felly ynghylch rhyddid i weithredu, cydsynio neu beidio, a dewrder i wrthsefyll?
- Cafodd Fasti ei thawelu mewn gwirionedd. Ydych chi'n ymwybodol o hyn yn digwydd yn rhywle heddiw?
- Oes gan Fasti wers inni am werth cadw urddas wrth weithredu ar egwyddor a chred?

**Gweddi**

Dysg ni, Dduw –
beth bynnag ein rhywedd –
pryd y dylem ddweud "Na",
pryd i aros yn dawel,
pryd i fod yn urddasol,
pryd i godi llais.
Rho inni ruddin cymeriad
i'n galluogi i wybod sut mae
ymddwyn mewn gwahanol
amgylchiadau.
Gwna ni'n gryf, yn wych, yn ddoeth,
ac yn dda. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 26 Gorffennaf 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 26 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Megan Williams, Porthaethwy

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 26 Gorffennaf am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Rhosier Morgan, Llandudoch

# Keti Koti

Yn niwedd Mehefin, ychydig cyn ein Cymanfa Gyffredinol ein hunain, fe alwyd cynrychiolwyr o'r eglwysi Ewropeaidd sy'n perthyn i fudiad Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (CWM) i'w cynhadledd yn yr Iseldiroedd. Ymhlith yr eglwysi hynny sy'n perthyn yng Nghymru y mae eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac roedd hi'n braf iawn cael cwmni ein gilydd wrth feddwl am thema'r gynhadledd: 'Ailddychmygu Cenhadaeth'.

Mae'r Iseldiroedd yn wlad gyfoethog, â phopeth yn hwylus yno; mae'n wlad drefnus a thwt, â llawer iawn o ofal a pharch i'w gweld ar waith yno.

Buom yn Utrecht yn swyddfeydd Eglwys Brotestanaidd yr Iseldiroedd, neu'r PKN. Dyma'r enwad Protestannaidd mwyaf yn y wlad; fe'i ffurfiwyd yn 2004 wrth i Eglwys Ddiwygiedig yr Iseldiroedd ac enwad diwygiedig arall a'r Eglwys Efengylaidd Lutheraidd ddod ynghyd yn un enwad. Mae gan yr eglwys fil o weinidogion a dros 1.4 miliwn o aelodau ar draws bron i 1,500 o eglwysi. Felly, union gan gwaith mwy o aelodau nag EBC, ond dim ond tair gwaith yn fwy o eglwysi!

Adeilad anferth wedi ei addasu o hen ysbyty a'i rannu â myrdd o fudiadau Cristnogol ac elusennol eraill oedd eu swyddfeydd. Roedd 260 o weithwyr yr eglwys yn gweithio oddi yno a phawb i'w gweld yn cydweithio mewn ystafelloedd cyfarfod hwylus ar ddyddiau arbennig. Cawsom weld prosiectau arloesol dan nawdd yr eglwys: caffi hunangynhaliol mewn cysylltiad ag un o eglwysi mwyaf llwyddiannus y ddinas oedd un ohonyn nhw.

Yn yr anerchiad cyntaf i'r gynhadledd, fe gawsom ein hatgoffa gan Dr Kuzipa Nalwamba o Gyngor Eglwysi'r Byd yn Bose, y Swistir: 'Nid yr anfonwr cenhadol ydy'r eglwys, ond y gymuned sy'n dirnad cenhadaeth Duw. Nid ydym yn dod â Duw i fyd sydd wedi ei anghofio ganddo, ond ceisio adnabod lle mae Ysbryd Duw eisoes ar waith ynddo.'

Buom hefyd yn y brifddinas, Amsterdam, ar ddiwrnod arbennig yn eu hanes fel cenedl oedd yn dod yn fwyfwy pwysig iddyn nhw, sef diwrnod a gŵyl o'r enw Keti Koti – enw a olygai 'torri cadwynau' yn yr iaith Sranantongo a siaredir yn Suriname, de America. Roedd yr ŵyl, a gynhelir ar 1 Gorffennaf, yn dathlu'r diwrnod y dechreuwyd rhoi diwedd ar gaethwasiaeth yn Suriname a thaleithiau eraill o dan lywodraeth yr Iseldiroedd ym 1863. Ond ni welwyd terfyn ar y gaethwasiaeth hon tan ddeng mlynedd yn ddiweddarach dan gytundeb y byddai'r caethion yn dal ati i wasanaethu eu meistri fel math o iawndal iddyn nhw.

Yno, mewn parc ynghanol Amsterdam, fe gawsom ni'r fraint o gael cipolwg dan y cyfoeth a'r drefn i gyd a gweld bod yna draddodiad hir o drefedigaethu oedd wedi golygu bod y wlad wedi ymgyfoethogi ac elwa'n aruthrol ar hyd y canrifoedd ar draul hynny. Roedd trefedigaethau yn y Caribî eto'n perthyn i Deyrnas yr Iseldiroedd – ond nid oedd yn agos yr un buddsoddiad a chyfoeth a chyfleon yno.

Yn ychwanegol at y cyflwyniadau eraill a'r gwaith arbenng oedd i'w gyflawni gan y cynrychiolwyr oedd yno, fe gawsom gyfarfod yr Athro Kathleen Ferrier, Cadeirydd Comisiwn UNESCO yr Iseldiroedd a chyn-Aelod o Senedd yr Iseldiroedd sy'n parhau i gynghori CWM ar eu rhaglenni. Fe roddodd hanes a'i myfyrdodau ar daith yr Iseldiroedd wrth iddi wynebu ei gorffennol o gaethwasiaeth. Roedd wedi gweld diwedd i'r arfer o beintio wyneb yn ddu ac ymddwyn braidd yn dwp yn nhraddodiad Nadoligaidd 'Black Pete', a'i gyfnewid am beintio wynebau'n bob lliw er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y gymdeithas bellach.



*Cynrychiolwyr o Gymru ger y cerflun caethwasiaeth cenedlaethol*
*Rhes flaen: Joanna Thomas-Wright, Nan Powell-Davies, Mair Tomos Ifans, Elinor Wyn Reynolds, Rhodri Darcy*
*Rhes ôl: Huw Powell-Davies, Geraint Rees, Sian Meinir, Thomas Williams, Wayne Adams*




*Yr Athro Kathleen Ferrier yn annerch*

Mae stori wynebu eu gorffennol ymerodrol wedi dechrau cael ei dweud yma, a llawer o ymddiheuro wedi digwydd eisoes gan Frenin a Phrif Weinidog y wlad. Cafwyd ymddiheuriad hefyd gan eglwysi am eu rhan hwythau, a bwriad prosiect Onesimus CWM yw helpu eglwysi'r Gorllewin i wynebu eu rhan hwythau yn y trefedigaethu.

Wrth fyfyrio ar y gorffennol hwn yn yr Iseldiroedd, fe atgoffodd Kathleen Ferrier ni nad ymddiheuro yw ddiwedd y daith. Doedd hi ddim yn gweld hynny fel diben ynddo'i hun, ond yn hytrach fel coma, ac nid atalnod llawn, ar y gorffennol anffodus. Gwelai lawer o ffordd i fynd eto i wneud iawn am yr hyn a fu wrth i'r eglwys hefyd symud oddi wrth gofio yn unig i weithredu'n gyfiawn, gan sicrhau cymod a chymryd rhan mewn cenhadaeth oedd yn trawsnewid y gymdeithas o'i chwmpas.

Yn y cyfamser, roedd hi'n braf gweld pobl o Suriname yn cadw gŵyl liwgar a llawen Keti-Koti yn Amsterdam. Roedden nhw'n gwneud hynny yng nghysgod y cerflun caethwasiaeth anferth yn un o'r parciau yno, gan wahodd pawb atyn nhw o bedwar ban i ddathlu'r hyn oedd yn eu nodweddu a'r hyn oedd yn eu huno heddiw fel dinasyddion y wlad. (Gol. HPD)

# Disodli Starmer

O'r diwedd, y mae Starmer wedi mynd. Y mae wedi gadael gwaddol rhyfelgar iawn – drwy bwysleisio'r pwysigrwydd i baratoi ar gyfer y rhyfel yn erbyn Rwsia, y rhyfel y mae arweinwyr rhyfelgar Ewrop yn argyhoeddedig y bydd yn digwydd cyn 2030. Llwyddodd hefyd i sicrhau bod £15biliwn ychwanegol i'w roi i'r diwydiant arfau gyda'r mwyafswm i'w ddefnyddio i ddatblygu'r adar angau (drones).



A dweud y gwir y mae'r rhyfel yn erbyn Rwsia wedi hen ddechrau. Aelodau o luoedd arfog Prydain a gwledydd eraill Ewrop (Ffrainc a'r Almaen yn bennaf) a'r UDA sydd wedi sicrhau bod Wcráin wedi llwyddo i danio rocedi ac adar angau i berfeddion Rwsia, a dwyrain Wcráin gan, ar o leiaf un achlysur, fomio ysgol merched tu fewn i ffiniau y rhan Rwsieg o'r wlad. Y rhyfel rhwng y llywodraeth ganolog a'r Rwsiaid yn y Donbas oedd un o brif achosion y rhyfel. Etholwyd Zelenskyi ar raglen o greu heddwch; ond newidiodd ei feddwl ac yna fe'i perswadiwyd gan Boris Johnson ac eraill i ryfela yn erbyn Rwsia gyda'r addewid o gefnogaeth yr UDA, Prydain ac Ewrop.

### Rhyfelgarwyr

Mae Starmer, â'i gyd-ryfelgarwyr Ewropeaidd, wedi bod yn cefnogi Zelenskyi yn gyson oddi ar hynny. Maent wedi datgan y byddant yn cefnogi Wcráin hyd nes y bydd yn aelod o NATO a'r Undeb Ewropeaidd. Datganiad sy'n gyfystyr â dweud nad oes diddordeb ganddynt mewn trafodaethau heddwch, er eu bod yn honni taw Rwsia sy'n amharod i drafod. Y ffolineb hwn sy'n mynd i sicrhau parhad y rhyfel hyd 2030. Gobeithiant erbyn hynny y byddant yn gallu mynd i ryfel llawn, pan fydd byddinoedd Ewrop yn barod! Anwybyddant awydd gwerin Wcráin sy'n dyheu am heddwch nawr! Maent wrthi'n aberthu'r Wcráin a'i phobl er lles cyfoethogion y 'dosbarth Epstein'.

### Propaganda

Mae oligarchiaid Rwsia yn ddigon balch bod y rhyfel yn parhau am yr un rhesymau yn union, nid eu plant nhw sy'n marw ar faes y gad ond plant y tlodion a'r cenhedloedd llaiafrifol o fewn y wladwriaeth anferth honno. Mae'r peiriant propaganda ar waith gyda'r Rwsiophobia'n cael ei atgyfnerthu'n ddyddiol gan y sefydliad. Yr un rhai sydd wedi cefnogi Israel yn Gaza a Lebanon, a chefnogi'r UDA ac Israel yn erbyn Iran. Peidiwch cymryd sylw o'r gwadu sy'n digwydd ynglŷn â'r gefnogaeth honno gan Starmer a'i lywodraeth, bu'r llu awyr Americanaidd yn defnyddio meysydd awyr Prydain a bu llu awyr Prydain yn saethu i lawr dronau oedd wedi eu targedu at Israel (our allies in the region) gan Iran – beth oedd hynny ond cymryd rhan?

Propaganda a chelwydd yw arfau cyntaf unrhyw ryfel. Yr hyn sy'n affwysol o drist yw'r ffaith nad oes neb yn codi llais yn erbyn hyn. Mae'r propaganda wedi bod yn hynod o effeithiol. Os ymosodwn ar lywodraeth Israel – fe'n cyhuddir gan y sefydliad o fod yn wrth-semitaidd, ac os beirniadwn lywodraeth Wcráin a chefnogaeth Ewrop iddi – fe'n cyhuddir o gefnogi Putin. Celwyddau noeth yw'r ddau gyhuddiad.

A fydd Burnham yn wahanol? Go brin! Dyn y sefydliad yw e.

**Guto Prys ap Gwynfor**
(Tudalen Gweplyfr, 1 Gorffennaf)



# Cyfres newydd am fywyd Iesu Grist

Cyhoeddodd y BBC ei fod wedi comisiynu cyfres arloesol am fywyd Iesu Grist. Bydd y rhaglenni teledu'n defnyddio ymchwil hanesyddol, darganfyddiadau archeolegol a thechnoleg arloesol i 'ehangu a hogi ein dealltwriaeth o un o'r bobl fwyaf dylanwadol a fu erioed,' yn ôl y darlledwr. Byddant yn pwyso ar yr Efengylau a ffynonellau eraill i ddeall y byd bryd hynny a chyfleu dylanwad Iesu arno. Bydd haneswyr a meddylwyr Cristnogol yn amlinellu arwyddocâd ei fywyd. Gan mai Iddew oedd Iesu o Nasareth, wrth gwrs, a bod y Quran yn ei enwi fel 'Iesu y Meseia' fe fydd cyfraniadau gan arweinwyr ffydd Iddewig a Mwslimaidd.



### Byd a bywyd Iesu

Dywedodd Tom Garton, cyfarwyddwr creadigol y cwmni cynhyrchu Wonderhood Studios: 'Prin fod bywyd neb wedi siapio'r byd cymaint â bywyd Iesu Grist ac, i Gristnogion, mae'n llawer mwy na ffigwr hanesyddol: Mab Duw ydyw. Eto i gyd, bach iawn y mae llawer ohonom yn gwybod am y byd y daeth Iesu ohono – am y bobl, y lleoedd, y credoau a'r gwrthdaro a luniodd ei fywyd a'r grefydd a newidiodd y byd ar ôl hynny.'

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Golygyddol

## Un wreichionen

Fe gefais fwynhad mawr yng nghyfarfodydd yr Undeb yn gwrando ar yr Athro Prys Morgan yn traddodi'r ddarlith 'Annibynia yn ei grym: Dr Thomas Rees, Abertawe'. Roedd y darlithydd yn amlwg yn ei elfen a chyflwynodd ei ddeunydd yn egnïol a chydag argyhoeddiad. Credai nad oedd Dr Thomas Rees wedi cael y sylw dyladwy gennym fel cenedl oherwydd roedd maint ei ddylanwad a'i gyfraniad yn fawr. Wrth i Gymru droi'n genedl seciwlar anwybyddir ein hanes Cristnogol fe rhywbeth amherthnasol.

Taniodd yr Athro fy nychymyg wrth ddweud fod cofiant Dr T. Rees, a ysgrifennwyd gan John Thomas, Lerpwl, yn eithriadol o ddarllenadwy gan nad yw'n gwenieithu. (Elfen ddiflas iawn o lawer o fywgraffiadau oes Fictoria yw eu bod yn aml yn ffuantus ac yn gwyngalchu'r gwrthrychau.)

### Y cofiant

Wedi cyrraedd gartref euthum ati i ddarllen y gyfrol, ac yr oedd yr Athro yn llygaid ei le. Mae cymaint o arweddau diddorol yn y cofiant hwn. Daw rhagor i'r fei maes o law ond hoffwn gyfeirio at un stori ar dudalennau 42 a 43 sy'n ymwneud â Chapel Isaac. Roedd yr achos ar ddechrau'r 19eg ganrif wedi mynd yn llesg a difywyd ac 'erbyn terfyniad gweinidogaeth Mr L. Powell, yn 1827, wedi syrthio yn isel iawn. Yr oedd yr aelodaeth wedi disgyn o dan driugain mewn nifer, a phobl oedrannus a chanol oed oeddynt oll. Nid oedd un dyn na dynes ieuanc yn eu plith!'



Ar ben hynny roedd rhai o deuluoedd yr eglwys yn cweryla â'i gilydd ynglŷn ag un neu ddwy o hen feinciau. Treuliwyd nifer o gyfarfodydd eglwysig yn ceisio datrys cweryl y meinciau ond nid oedd modd cael y pleidiau at ei gilydd. Ond un dydd Mercher, mewn cyfarfod eglwysig, lle'r oedd cweryl y meinciau yn parhau , yn annisgwyl i bawb, cerddodd pedwar o'r newydd i mewn – 'un wraig briod a thri gŵr ieuanc. Tarawyd pawb â syndod, ac ni wyddai neb pa beth i'w wneud.' Anghofiwyd y cweryl am y meinciau dibwys ac aethpwyd ati i ymddwyn fel pobl Iesu Grist. Bu ymddangosiad y teulu bach hwn yn foddion adnewyddiad ymhlith aelodau eglwys Capel Isaac i'r fath raddau fel bod y gynulleidfa wedi cynyddu yn ystod y misoedd dilynol. Ychydig wedyn ar nos Wener 18 Gorffennaf 1828 ar ôl y bregeth arhosodd deg ar hugain ar ôl ac yn eu plith roedd y bachgen Thomas Rees.

### Gwers

Fel Cristnogion gallwn fynd ati i hollti blew am bethau dibwys gan wastraffu amser gwerthfawr y gallwn fod yn ei ddefnyddio i rannu'r newyddion da am Iesu. Fel yn hanes Capel Isaac pan mae Duw yn adnewyddu ei bobl y mae'n peri undod rhyngddynt ac yn aml mae'n cychwyn adnewyddu gwaith ei Deyrnas trwy bethau bychain. Efallai y dylem weddïo yn gyson ar Dduw am newidiadau bychain. Newid bach yn ein calonnau, yn ein cynulleidfaoedd, yn ein gweledigaeth, fydd yn esgor yn nes ymlaen ar adnewyddu. Gweddïwch y bydd un teulu newydd yn dod yn rhan o'ch eglwys yn ystod y misoedd nesaf.

Mae fy nghalon am ehedeg
unwaith eto i fyny fry
i gael profi'r hen gymdeithas
gynt fu rhyngof a thydi;
mi a grwydrais anial garw,
heb un gradd o olau'r dydd;
un wreichionen fach o'th gariad
wna fy rhwymau oll yn rhydd.

William Williams,
Pantycelyn

**Alun Tudur**




## Cyfres newydd am fywyd Iesu Grist – parhad

### Cyfres uchelgeisiol

Dywedodd Daisy Scalchi, pennaeth crefydd a moeseg y BBC: 'Mae Iesu Grist yn un o'r ffigurau mwyaf adnabyddus a dylanwadol yn hanes dynoliaeth – ac eto mae'r hyn a wyddom amdano yn dod o ffynonellau rhyfeddol o brin. Bydd y gyfres uchelgeisiol hon yn rhoi ei fywyd mewn ffocws fel erioed o'r blaen. Gyda gwaith ymchwil hanesyddol a dirnadaeth newydd, ni fu erioed foment fwy cymhellol i edrych o'r newydd ar y dystiolaeth a dilyn llwybr bywyd Iesu er mwyn mapio sut y sbardunodd chwyldro sy'n parhau i effeithio ar ein bywydau dros 2,000 o flynyddoedd yn ddiweddarach.'

Disgwylir i'r gyfres bedair-rhan gael ei darlledu yn 2027. Gobeithio'n wir y bydd y gyfres yn ysgogi diddordeb newydd yn Iesu fel Mab Duw, y tu hwnt i fod yn berson hanesyddol.



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# WRTH Y LLYW #17



Lle braf yw glan môr: gwymon, cregyn, sêr-môr, pwrs y fôr-forwyn, ac ambell granc. Anodd yw cael cipolwg ar y cranc am ei fod yn ymguddio ymysg y gwymon, neu o dan y cerrig. Dim ond i chi sylwi arno, gwelwch fod ganddo ddeg o goesau, ond mae dwy ohonynt yn hwy na'r lleill gan fod cymal ychwanegol ar bob un ohonynt. Os ydych am gydio ynddo gwnewch hynny rhwng bys a bawd ym man lletaf y gragen neu bydd yn edifar gennych.

Nid ei grafangau yw testun sylw'r golofn heddiw, ond yn hytrach ei gragen. Nid yw'r gragen yn tyfu gyda'r cranc. Mae'r fam yn cario'r wyau gyda hi, a phan fydd yn bryd iddynt ddeor gosodir hwy yn y tywod. O'r wyau daw'r creaduriaid mwyaf annhebyg i grancod a welsoch erioed. Maent bron mor fân â'r tywod sydd ar lan y môr. Ymhen dipyn daw'r un ffurf â'i fam, ond bydd yn rhaid iddo fwrw ei gragen sawl gwaith cyn dod i'w gyflawn faint.

Mae'n gorfod ymdrechu'n galed iawn i gael ymryddhau o'r hen gragen. Ar ôl aflonyddu am dipyn, a throi a throsi, llwydda yn y diwedd i'w gael ei hun yn rhydd. Neidia allan wedyn, yn sydyn. Erys wedyn yn hollol ddigyffro gan ei fod wedi llwyr ymlâdd.

Un feddal yw'r gragen newydd, ac mae wedi ei ffurfio o dan yr hen un, ond bydd yn caledu a thewhau gydag amser. Mae yn ddiamddiffyn iawn bellach, ac felly â i ymguddio. Mentra allan eto, dim ond ar ôl i'r gragen newydd galedu.

Canol mis Mehefin (18–20/6) daeth Bedyddwyr Cymru ynghyd i'r Tabernacl, Caerdydd, wrth i'r Parchg Ddr Rosa Hunt ysgwyddo llywyddiaeth yr enwad parchus, da hwnnw. Dymuniadau gorau felly i Rosa y flwyddyn hon ac i'r Parchg Simeon Baker, yr Ysgrifennydd Cyffredinol newydd. Diwedd Mehefin (24–26), daethom, Annibynwyr Cymru ynghyd yng nghwesty'r Towers, Abertawe yn sgil gwahoddiad caredig eglwysi Cyfundeb Gorllewin Morgannwg.

Dychmygwch, Bedyddwyr ac Annibynwyr Cymru, ac yn lletach hefyd, y traddodiad anghydffurfiol yng Nghymru fel cranc. Buom, sawl tro, mewn sawl yfory, yn sgil sawl argyfwng yn bwrw ein cragen grefyddol. Yn yr heddiw hwn, a'i aflonyddu a ydym yn troi a throsi i gael ymryddhau o hen gragen sydd bellach yn fychan a chaethiwus? Neu, efallai ein bod yn ymguddio, gan ganiatáu i gragen newydd o grefydda galedu o'n cwmpas?

Mi ddois o hyd i ysgrif yn ddiweddar, ac anodd yw peidio â dyfynnu'n helaeth ohoni: *... y mae lle i ofni bod yr eglwys swyddogol fel y cyfryw yn llawer mwy effro ynglŷn â'i chyfundrefnau allanol na chyda'i hysbryd mewnol. Y mae crefydd Cymru wedi mynd yn sobor o barchus ac oherwydd hynny yn beth sobor o sâl. Yr un yw perygl Cymru – cenedl a greddf a thraddodiad crefyddol hen ganddi – ag ydoedd yn nyddiau Crist, sef i'w dychymyg ysbrydol suddo'n draddodiad a defod yn unig. Dyna berygl pob gweledigaeth erioed a droir yn gyfundrefn. Eiddo'r ychydig yw'r weledigaeth; eiddo'r lliaws yw'r gyfundrefn. Ein hangen mawr heddiw yw'r gallu cyfrin hwnnw i ddychmygu'n ysbrydol, rhywbeth i ddeffro'n hamgyffred a'n meddwl o'r holl bregethu a'r athrawiaethau cyson yn mynd i wneuthur glanach, gonestach, dewrach a chryfach pobl ohonom ni, waeth i ni ddarfod â rhagrithio ac esgus bod yn dduwiol.*

Athrylith diwinydd cyfoes? Mewnwelediad yn ei bryd i Anghydffurfiaeth yr unfed ganrif ar hugain?

Ysgrifennwyd y geiriau gan D. J. Williams (1885–1970) 103 o flynyddoedd yn ôl! (*Y Gaseg Ddu a Gweithiau Eraill*; D. J. Williams. Gol. John Gwyn Griffiths, Gwasg Gomer, 1971. 'Y Gagendor' 1923) Derbyniaf fod y geiriau uchod yn rhoi inni olwg gadarnhaol ar fawredd DJ; ond mae'r geiriau hefyd yn amlygu trueni affwysol crefydda ein cyfnod.

Ai hen granc yn glynu wrth hen gragen yw Anghydffurfiaeth yng Nghymru? Wedi mynychu Cyfarfodydd Blynyddol y Bedyddwyr a chael y fraint o lywyddu ein Cyfarfodydd Blynyddol ninnau; wedi gweld nhw a ni wrth ein gwaith; wedi gwrando'r myfyrdodau, gweddïau, pregethau, areithiau, ac anerchiadau mi wn fod yna ewyllys pendant, penderfynol i ymryddhau – i gael bod eto yn gyfrwng ryddhad.

Yn y Gymru sydd yn berwi o'n cwmpas, rhaid wrth y fenter ddygn a dyfal: yr ynni creadigol a dardd o Grist. Daw hynny dim ond wrth ymneilltuo o'r hyn y datblygodd Ymneilltuaeth i fod. Yn Eisiau: Anghydffurfwyr sydd yn anghydffurfio ag Anghydffurfiaeth. Wedi blwyddyn dda o droi yn eich cwmni ac wedi mwynhau pob munud o'n prifwyl yn Abertawe, mi wn fod Annibynia'n *teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu;/ mae'r Haleliwia* (W. Rhys Nicholas, 1914–96 © Richard E. Huws) yn ein henaid ni, a rhoddwn eto, i Iesu, pob mawrhad.

**Owain Llŷr Evans**



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*